Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET*

## *2.00 PM DYDD LLUN, 8 MAWRTH 2021*

## *TRWY DIMAU MICROSOFT*

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Croeso a galw'r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 3 - 10)*

5. Craffu Cyn Penderfynu
    - Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

6. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 11 - 14)*

7. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mawrth, 2 Mawrth 2021**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **M.Harvey**

**Is-gadeirydd:** **S.Rahaman**

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 3 Chwefror 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, H.Jenkins, C.Davies, C.Plowman, C.Griffiths, H.Jones, K.Jones, J.Woodman-Ralph, N.Pearce, S.Rees a/ac A.Thomas |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 25 Tachwedd 2020
- 10 Rhagfyr 2020
- 8 Ionawr 2021
- 13 Ionawr 2021

2. **YMGYNGHORIAD AR GYNIGION CYLLIDEB 2021/22**

Derbyniwyd trosolwg o gynigion cyllidebol drafft y Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 2021/2022, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd mai cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Corfforaethol yn y flwyddyn ariannol gyfredol oedd £18.4 miliwn, gyda £50,000 yn cael ei nodi fel arbedion ar gyfer 2021/22 a £30,000 ar gyfer 2022/23. Gofynnodd yr Aelodau a fydd dadansoddiad pellach o sut y gellid ailgyfeirio arbedion rheoli ychwanegol i wasanaethau

rheng flaen. Cadarnhawyd y bydd blaengynllun ariannol y dyfodol yn cael ei ddiweddaru yn yr haf ac y bydd yn edrych ar arbedion a chreu incwm yn ddiweddarach yn y flwyddyn a blynyddoedd ariannol y dyfodol. Ychwanegwyd mai un o brif ganolbwyntiau'r Gwasanaethau Corfforaethol eleni oedd gweithredu o ran y rheng flaen drwy gefnogi a thalu grantiau i'r holl fusnesau yn y gymuned, gyda chymorth cydweithwyr ym maes datblygu economaidd; hyd yma roedd £36 miliwn wedi'i dalu i fusnesau. Soniodd swyddogion fod y gyllideb o £18.4 miliwn hefyd yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig ag Aelodau a Gwasanaethau Pwyllgorau wrth hwyluso'r cyfarfodydd amrywiol gan gynnwys y Pwyllgorau Craffu.

O ran caffael ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, gofynnwyd a oedd disgwyl i'r swyddi greu arbedion drwy gaffael effeithiol. Dywedodd swyddogion na fyddai hyn yn creu arbedion ychwanegol yn benodol, ond yn hytrach byddai'n helpu i sicrhau cydymffurfiaeth a'r gwerth gorau am arian. Nodwyd bod cymorth ychwanegol yn cael ei geisio i sicrhau bod y contractau cywir yn cael eu rhoi ar waith fel bod gweithgareddau, megis y gwaith sy'n gysylltiedig â'r contract hamdden newydd sy'n ymwneud â chreu incwm drwy ddatblygiad Parc Margam, yn cael eu caffael yn briodol a fydd, o ganlyniad, yn sicrhau bod gan y cyngor y gwerth gorau am arian o ran contractau.

Gofynnwyd a roddwyd ystyriaeth i adleoli neu ailhyfforddi staff, o ystyried yr hyblygrwydd a gafwyd o ran trefniadau gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod polisi recriwtio cyfredol y cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i hyn ddigwydd; mae'n rhaid ystyried pob swydd ar gyfer unrhyw aelodau o staff a oedd mewn perygl; dim ond pan roddwyd ystyriaeth lawn i ymgeiswyr a ystyriwyd yn flaenorol, y gellir hysbysebu swyddi i weithlu mewnol y cyngor. Ychwanegwyd os nad oedd modd penodi rheolwr bryd hynny, y gallent gwblhau achos busnes i geisio cymeradwyaeth i hysbysebu'r swydd yn allanol; fodd bynnag, mae polisi cyfredol y cyngor yn mynnu bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i geisio adleoli staff yn gyntaf.

O ran Cyfathrebu a Marchnata, soniodd yr Aelodau fod y lefel uchel bresennol o weithgarwch cyfathrebu’n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi, ond gofynnwyd a oedd dadansoddiad ynghylch a oedd angen y swyddi newydd hyn yn barhaol. Cadarnhaodd swyddogion fod y swyddi ychwanegol yn gysylltiedig â marchnata digidol ac fe'u crëwyd yn wreiddiol i gefnogi'r galw eithriadol a gafwyd oherwydd y pandemig. Dywedwyd y byddai staff, dros yr ychydig fisoedd nesaf,

yn edrych ar gynllunio'r dyfodol a sut y gellid llywio cam adfer y pandemig, a fydd yn cynnwys nodi'r hyn sydd ei angen ar wasanaethau unigol er mwyn cyflwyno yn y dyfodol; roedd yn debygol y byddai marchnata digidol yn faes a fydd yn ehangu.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyllid allanol wedi'i geisio ar gyfer y swyddi Polisi ac Ymchwil. Esboniwyd, pan nodwyd cyfleoedd cyllid grant, y byddai staff bob amser yn mynd ar drywydd hyn i benderfynu a oedd modd darparu'r cyllid; roedd un swydd eisoes yn y tîm Polisi ac Ymchwil a ariannwyd drwy arian grant. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y swydd benodol hon yn gysylltiedig â chyflwyno'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau a'i bod yn rôl bwysig ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf ac olyniaeth y tîm bach am ei bod yn rôl mor arbenigol.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod £27,000 hefyd wedi'i roi yn y gyllideb i reoli'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r agenda tlodi, lle'r oedd y cyngor yn derbyn cymorth allanol gan gwmni o'r enw Policy and Practice i ddarparu gwybodaeth, dadansoddiadau a data i alluogi'r darn hwnnw o waith i fynd rhagddo.

Gofynnwyd a ragwelwyd y byddai'r cynnydd mewn gweithgarwch digidol yn arwain at arbedion eraill. Dywedodd swyddogion fod y Pwyllgor Personél wedi cymeradwyo creu swydd Prif Swyddog Digidol newydd yn ddiweddar, heb unrhyw gostau ychwanegol gan iddi gael ei chreu yn dilyn y newidiadau o ran swydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol; cyfrifoldeb y Prif Swyddog Digidol newydd fydd gweithio gydag Aelodau, Swyddogion a Phartneriaid i helpu i yrru agenda ddigidol y cyngor yn ei blaen a chydnabod y bydd hyn yn arwain at newid diwylliannol.
Gofynnwyd i swyddogion gadarnhau a fyddai'r £500,000 i gynyddu cyllideb cymorth treth y cyngor yn benodol i ddarparu taliadau i dderbynwyr cymwys, ac a oedd modd adennill unrhyw ran o hyn oddi wrth Lywodraeth Cymru neu'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Cadarnhawyd y byddai'r cynnydd yng nghyllideb cymorth treth y cyngor yn benodol i ddarparu taliadau i dderbynwyr cymwys gan ei fod i adlewyrchu'r ffaith bod gan y cyngor nifer cynyddol o hawliadau eleni (tua 500) ar gost o oddeutu £500,000. Nodwyd bod y cyngor, o ran y flwyddyn gyfredol, wedi derbyn £306,000 yn ôl ar gyfer dau chwarter cyntaf y flwyddyn a bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiad y byddai’n sicrhau bod £11 miliwn pellach ar gael ledled Cymru; felly roedd Swyddogion yn disgwyl y byddai'r holl gostau ychwanegol yr aethpwyd iddynt ar gymorth treth y cyngor eleni’n cael eu had-dalu drwy'r gronfa caledi. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw

arwydd o lefelau ariannu ar gyfer y flwyddyn nesaf, a dyna pam yr oedd £500,000 wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Os yw'r broses adennill yn helpu i leihau nifer yr hawliadau ar gyfer 2022/23, bydd yn caniatáu i'r gyllideb hon gael ei lleihau yn y dyfodol.

Yn dilyn y drafodaeth, nodwyd bod Llywodraeth y DU wedi datgan faint o arian yr oedd wedi'i roi i Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond nid oedd wedi rhoi unrhyw arwydd o faint oedd ar gael ar gyfer y pandemig. Roedd hwn yn ffactor a allai newid y flwyddyn nesaf os yw ymateb a gofyniad yr holl gyfyngiadau a chymorth meddygol cyfredol yn sylweddol uwch y flwyddyn nesaf na'r hyn a oedd yn y gyllideb sylfaenol a roddwyd gan Lywodraeth y DU i'w hadrannau yn San Steffan a'r gweinyddiaethau yng Nghaerdydd, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ychwanegwyd nad oedd gan Lywodraeth Cymru'r adnoddau ar hyn o bryd i neilltuo’n sylweddol i'r flwyddyn nesaf, er ei bod wedi addo sicrhau y byddai £1.9miliwn ar gael ar gyfer y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf; hyd yma, nid oedd unrhyw ymrwymiadau pellach wedi'u cyhoeddi. Soniodd swyddogion y byddai'n cymryd amser i'r economi wella o'r pandemig ac i'r cyngor weld gostyngiad yn nifer yr hawliadau am gymorth treth y cyngor, felly roedd yn ddoeth cynnwys £500,000 yn y gyllideb sylfaenol; bydd unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid yn lleihau'r baich ar sefyllfa bresennol y cyngor.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r gwahaniaeth rhwng cronfeydd brys a chronfeydd wrth gefn:

- Cronfa frys – o fewn y gyllideb ar gyfer eleni, roedd Swyddogion wedi creu cronfa frys i dalu am gostau annisgwyl; gellid ei ailglustnodi i wahanol wasanaethau yr oedd angen cymorth arnynt ar gyfer y costau annisgwyl. Nodwyd ei bod yn bwysig gan ei bod yn sicrhau bod gan y cyngor ryw elfen o gymorth ariannol o fewn y gyllideb sylfaenol.
- Cronfa wrth gefn – amlygwyd cronfeydd wrth gefn fel cymorth yn ôl y galw; unwaith y byddai'r arian hwn wedi'i ddefnyddio, ni ellid ei defnyddio eto.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y ffigurau o adroddiad diwethaf Rheoli'r Trysorlys, gan gynnwys tanwariant posib, wedi'u cynnwys yn y gyllideb. Pan gyflwynwyd adroddiad Rheoli'r Trysorlys i'r Cabinet ar 13 Ionawr 2021, nodwyd ei fod yn dangos gorwariant posib gan fod cyfraddau llog wedi gostwng tua £250,000 ac amlygodd yr ymdrinnir

ag unrhyw amrywiadau yng nghyllideb flynyddol Rheoli'r Trysorlys drwy gronfa cyfartalu Rheoli'r Trysorlys; roedd hyn yn enghraifft o sut y defnyddiwyd y gronfa wrth gefn i helpu i gyfartalu costau rhwng blynyddoedd.

O ran y costau ychwanegol a gafwyd oherwydd y pandemig, gofynnodd yr Aelodau am fanylion y cynnydd a'r amcanestyniad ar adennill costau oddi wrth Lywodraeth Cymru a Thrysorlys y DU. Darparodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am y costau adennill, yn dilyn yr adroddiad cychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 13 Ionawr 2021. Dywedwyd bod y Cyngor bellach wedi hawlio £9.1 miliwn o gronfa caledi Llywodraeth Cymru a'i fod wedi cael ad-daliad o £7.7miliwn; roedd gwerth £22,000 o wariant nad oeddent wedi'i gefnogi neu a gefnogwyd yn rhannol yn unig. Er enghraifft dim ond 15% o gostau'r cyfryngau a thua 50% o gostau TG yr oeddent yn eu talu. Tynnwyd sylw at y ffaith mai'r balans o £1.1miliwn oedd gwerth yr hawliad ym mis Rhagfyr a gyflwynwyd bythefnos yn ôl, ac roedd Swyddogion yn disgwyl i gyhoeddiadau ac arian pellach ddod drwodd o'r hawliad hwnnw yn ystod y mis hwn. Yn ogystal, roedd Swyddogion wedi cyflwyno tri hawliad o golli incwm, sef £8.2 miliwn ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr, lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi ad-dalu bron £6.1miliwn; £1.8 miliwn oedd gwerth y cais diwethaf, a anfonwyd yr wythnos diwethaf ar gyfer y trydydd chwarter, yr oedd Swyddogion yn disgwyl adborth arno a thaliad yn ddiweddarach y mis hwn.

Gofynnwyd a fydd dadansoddiad o rai arbedion posib o drefniadau gweithio yn y dyfodol, e.e. llai o ddibyniaeth ar gael swyddfeydd ffisegol. Cadarnhaodd swyddogion, pan fydd y cyngor yn mynd drwy broses adfer y pandemig, y bydd staff yn ymchwilio i hyn, gan nodi pa wasanaethau y gellid eu darparu a sut i wneud y defnydd gorau o bobl ac asedau ffisegol yn y blynyddoedd i ddod. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Aelodau yn y dyfodol, wrth i waith cynllunio ariannol ddechrau o fis Ebrill ymlaen, er mwyn iddynt ystyried yr holl faterion hyn.

Yn 2019/20, nodwyd bod cryn drafodaeth am y Strategaeth Creu Incwm; bu tarfu oherwydd y pandemig, ond gofynnwyd a oedd y darn hwnnw o waith wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cadarnhaodd swyddogion fod creu incwm yn dal i gael ei ddatblygu drwy'r pandemig, er nid ar yr un lefelau ag o'r blaen. Soniwyd y byddai'r Aelodau'n gyfarwydd â'r adroddiad cynigion cyllidebol drafft gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 13 Ionawr 2021, a oedd yn nodi bod incwm parcio ceir ac incwm rhent wedi

gostwng a bod darpariaethau cyllideb ychwanegol yn cael eu gwneud i gwmpasu hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda'r disgwyliadau y byddai'n gwella wrth symud ymlaen i'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod adnoddau staff hefyd wedi'u hailgyfeirio, gyda'r Cydlynydd Masnachol yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r cyfryngau, gan weithio i sicrhau bod y cyngor yn ymdrin â'r gwaith sylweddol yr oedd y pandemig wedi'i achosi yn y maes gwasanaeth penodol hwnnw. Nodwyd bod staff hefyd wedi parhau i weithio ar rai gweithgareddau creu incwm megis ailddatblygu'r cynnig hamdden ym Mharc Margam; roedd hyn yn symud i'r cam dylunio ar hyn o bryd ac wrth iddo fynd yn ei flaen, byddai'r Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynny.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y ffaith ei fod wedi'i nodi yn yr ymateb i COVID-19 y bu ymdrech tîm enfawr ar draws yr holl wasanaethau i chwarae rôl i sicrhau bod y gymuned yn cael ei chefnogi a'i diogelu; roedd y staff wedi bod yn rhan o'r ymdrech rheng flaen dros y 12 mis diwethaf ac roedd hyn yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld.

Mae rhai enghreifftiau o'r rôl bwysig y mae gwasanaethau cymorth wedi'i chwarae’n cynnwys:

- Cyflwyno'r isadeiledd digidol i gefnogi dysgu mewn ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol, rhaglen waith sylweddol a oedd yn parhau;
- O ran agenda Iechyd Cyhoeddus Cymru, roedd y Tîm Cyfathrebu wedi bod yn rhan bwysig o ymdrech gyffredinol Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael y cyhoedd i ddeall sut i ddiogelu eu hunain o ran golchi eu dwylo, cadw pellter cymdeithasol a'r negeseuon pwysig eraill;
- Ar draws nifer o feysydd gwasanaethau, roeddent yn chwarae rhan hanfodol wrth geisio cefnogi pobl sy'n wynebu caledi ariannol, p'un a oeddent yn unigolion neu'n berchnogion busnes.

O ran adferiad, nodwyd y byddai angen cynnal trafodaethau drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynghylch cael cymorth i ddechrau'r broses o gynllunio adferiad; byddai rhan o'r broses hon yn gofyn am adolygu blaenoriaethau'r cyngor ac edrych yn feirniadol ar ble y byddai'n well buddsoddi refeniw ac adnoddau cyfalaf. Ychwanegwyd y byddai Aelodau yn cael cyfle i ystyried llunio'r gyllideb ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i hynny dros y 12 mis nesaf.

Gofynnodd yr Aelodau faint y mae'n ei gostio i'r cyngor leihau treth y cyngor hanner y cant, a phetai hynny'n digwydd, pa mor anodd fyddai codi'r arian hynny eto. Esboniwyd mai tua £77 miliwn oedd swm treth y cyngor a gynhyrchwy ar hyn o bryd, gan olygu bod pob 1% gyfwerth â £780,000 cyn y byddai cynllun cymorth treth y cyngor yn cael ei roi ar waith; roedd bron £19miliwn wedi'i gyllidebu ar gyfer y cynllun. Ychwanegodd swyddogion mai tua £590,000 oedd cyfanswm net y cynnydd ar gyfer pob 1% o dreth y cyngor ac y byddai pob hanner y cant ychydig yn is na £300,000; roedd cynllun cymorth treth y cyngor ar waith i helpu'r rheini a oedd dan yr anfantais ariannol mwyaf a byddai'r cynllun hwn yn dal i fod ar waith y flwyddyn nesaf. Soniwyd bod dros 17,500 o bobl wedi elwa o'r cynllun hwnnw; Talwyd treth y cyngor 12,500 o bobl yn llawn ac roedd tua 5,000 o bobl yn derbyn cyfraniadau tuag at eu treth y cyngor.

Pe bai newidiadau gan Lywodraeth Cymru a oedd yn effeithio ar gynigion y gyllideb a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, o bwynt y cyfarfod hyd nes y bydd angen gwneud y penderfyniad, gofynnodd yr Aelodau pa gyfleoedd y byddent yn eu cael rhwng yr amser hwnnw i sicrhau bod ganddynt y darlun cliriaf o'r gyllideb gyffredinol. Amlygodd swyddogion fod disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud ei chyhoeddiad terfynol ar ei chyllideb ariannu ar gyfer y flwyddyn nesaf ar 2 Mawrth 2021 ac y bydd unrhyw wybodaeth bellach, gan gynnwys manylion y cyhoeddiad hwn, yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad terfynol a oedd yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor ar gyfer ail wythnos mis Mawrth. Ychwanegwyd bod seminar ar gyfer yr holl Aelodau wedi'i drefnu ar gyfer 4 Mawrth 2021 lle gallai Aelodau drafod agweddau ar y gyllideb ymhellach.

Yn dilyn craffu ar fanylion cyllidebol yr adroddiad, atgoffwyd yr Aelodau y byddai eu sylwadau o'r cyfarfod hwn yn rhan o'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar gyfer cyllideb 2021/22. Gofynnwyd iddynt gysylltu â Swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill ar gyfer arbedion cyllidebol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad amgaeedig, er mwyn iddynt eu hystyried.

## 3. <u>BLAENRAGLEN WAITH</u>

Nododd y Pwyllgor Flaenraglen Craffu'r Cabinet ar gyfer 2020/21.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**DRAFT**
**Cabinet Scrutiny Committee**
**Forward Work Programme 2020/21**

| Date of Meeting | Agenda Item | Officer |
|---|---|---|
| | | |
| 21 October | | |
| | | |
| | | |
| 4 November | | |
| | | |
| | | |
| 11 November | (Special Budget) | |
| | | |
| | | |
| 25 November | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 9 December | Test, Trace and Protect – update | |
| | Covid -19 Recovery Strategy (inclusion of Local Area Co-ordinators) | |
| | | |
| 6 January | | |
| | | |
| | | |
| 13 January | (Special Budget) | |
| | | |
| | | |
| 3 February | | |
| | | |
| | | |
| 24 February | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 8 March | (Special Budget) | |
| | | |
| | | |
| 16 March | Letter from Chair of PSB | |
| | | |
| | | |

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag